**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1231
Ein cyf/Our ref LW/12098/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

13 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd ynghylch y ddeiseb gan y Grŵp Dad-ddofi, Her Fawr Newid Hinsawdd, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd yn gofyn am gyflwyno arosfannau bysiau mwy gwyrdd a mwy 'cyfeillgar i wenyn' ledled Cymru.

Fel Llywodraeth, rydym yn gefnogol iawn i fentrau gwyrdd ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd o ran gwyrddu arosfannau a gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau gosod cysgodfannau bysiau gyda 'thoeau byw' gan ddefnyddio cronfa drafnidiaeth leol Llywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr 2020, dyfarnwyd Grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri o £100,000 i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer Prosiect Llwybrau Gwyrdd drwy Gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth fel potiau plannu a blychau bywyd gwyllt, ac yn treialu nodweddion gwyrdd sefydlog, er enghraifft waliau a thoeau, mewn 22 o orsafoedd ledled Cymru a phum ardal gymunedol.

Fel rhan o'r gwaith lliniaru a sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth ar gyfer prosiectau seilwaith ffyrdd newydd, mae gennym ofynion safonol ar gyfer cyflwyno ardaloedd blodau gwyllt. O dan ein menter 'Coridorau Gwyrdd', o 2018 hyd yma, mae dros 100 o brosiectau gwella ymyl ffyrdd wedi'u cwblhau gyda dros 5ha o ardaloedd blodau gwyllt newydd wedi'u hau. Cafodd hynny ei ategu gan waith plannu bylbiau brodorol a phlannu 'plygiau' (planhigion ifanc) fel Briallu, Briallu Mair a Chlafrllys. Rydym hefyd wedi sicrhau bod oddeutu 25ha ychwanegol o laswelltir o dan reolaeth ffafriol ar draws y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, gan gynnwys adfer ardaloedd a gollwyd i brysgwydd goresgynnol. *Yn ogystal â hyn, o fewn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gwnaethom ymrwymo i archwilio ac ailosod ein ffordd o ymdrin â bioamrywiaeth ac ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu ein Cynllun Bioamrywiaeth ein hunain ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Bydd hyn yn adeiladu ar y fenter Coridorau Gwyrdd presennol a Chynllun Gweithredu blaenorol ar gyfer Bioamrywiaeth yr ystad Cefnffyrdd a bydd yn anelu at*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*ymgorfforі bioamrywiaeth a gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd ymhellach yn ein penderfyniadau a'n gweithredoedd.*

Mae rôl hefyd i'r system Gynllunio o ran sicrhau rhai o'r amcanion ehangach y mae'r deisebydd yn eu ceisio. Mae ein dogfen polisi cynllunio defnydd tir, Polisi Cynllunio Cymru, yn amlinellu bod tirlunio, toeau gwyrdd, ymylon glaswellt, draeniad trefol cynaliadwy a gerddi yn enghreifftiau o fesurau unigol sy’n gallu cynnig manteision cronnol ehangach, yn enwedig mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau yn ogystal â sicrhau rhinweddau amgylcheddol dymunol eraill lleoedd. Mae Cymru'r Dyfodol, ein fframwaith datblygu cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, yn cyfeirio at yr angen i ymgorffori seilwaith gwyrdd o fewn atebion dylunio ac mae'n cynnwys polisi penodol ar rwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd.

Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau Seilwaith Gwyrdd. Mae'r Asesiadau'n ffordd gadarnhaol o sicrhau canlyniadau cynaliadwy o ran creu lleoedd; mae deall eich ardal a nodi'r cyfleoedd sydd ar gael i sicrhau manteision lluosog yn ‘gynllunio da’ a rhaid i bob awdurdod gynnal yr Asesiad. Gall yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd helpu awdurdodau i nodi blaenoriaethau ar gyfer toeau gwyrdd newydd a helpu i integreiddio seilwaith gwyrdd i gynigion datblygu newydd.

O ran y cynigion a'r targedau penodol yn y ddeiseb, fel yr amlinellir uchod, er nad oes gennym darged penodol ar waith o ran cysgodfannau bysiau, rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n cymunedau mewn termau llawer ehangach i annog gwyrddu ardaloedd ledled Cymru drwy nifer o fentrau. Bydd y gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylweddol i Lywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change